**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**
**Heb ei gadarnhau**
**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Iechyd**
**a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023 am 3pm trwy Zoom (lif byw trwy YouTube)**

**Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Emma Woollett | Cadeirydd |
| Mark Hackett | Prif Weithredwr |
| Steve Spill | Is-gadeirydd |
| Anne-Louise Ferguson | Aelod Annibynnol |
| Christine Morrell | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd |
| Darren Griffiths | Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad |
| Debbie Eyitayo | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| Gareth Howells | Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad Cleifion |
| Jean Church | Aelod Annibynnol |
| Keith Lloyd | Aelod Annibynnol |
| Nerissa Vaughan | Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro |
| Nuria Zolle | Aelod Annibynnol |
| Pat Price | Aelod Annibynnol |
| Tom Crick | Aelod Annibynnol |

**Hefyd yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Hazel Lloyd | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| Matt John | Cyfarwyddwr Digidol |
| Richard Thomas | Cyfarwyddwr Craffiad, Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| Liz Stauber | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| Nia Morgan | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid |
| Alison McLellan | Partner Busnes Cyllid |
| Jason Blewit | Archwilio Cymru (tan munud 127/23) |

| **Rhif Cofnod** | | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|
| **123/23** | **CROESO A CHYFLWYNIADAU** | |
| | Croesawodd y cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Richard Evans, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Andrew Jarrett, Aelod Cyswllt o'r Bwrdd, Keith Reid, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Reena Owen, Aelod Annibynnol.<br><br>Nododd y cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod bwrdd cyhoeddus olaf y Prif Weithredwr Mark Hackett cyn ymddeol, gan ei fod ar wyliau ar gyfer y cyfarfod ddiwedd mis Gorffennaf 2023. Er y byddai cyfleoedd pellach i | |

| | | |
|---|---|---|
| | ddiolch i Mark Hackett cyn iddo adael, teimlai ei bod yn bwysig nodi'n ffurfiol ei lwyddiannau sylweddol ar gyfer y bwrdd iechyd ar gofnod cyhoeddus. | |
| **124/23** | **DATGANIADAU O FUDDIANT** | |
| | Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | |
| **125/23** | **CYFRIFON BLYNYDDOL ARIANNOL 2022-23** | |
| | **Derbyniwyd** adroddiad yn nodi’r cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2022-23 i’w cadarnhau.<br>Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynodd Darren Griffiths sylw at y pwyntiau a ganlyn:<br>- Roedd yr adroddiad a’r cyfrifon archwilio wedi’u hystyried gan y Pwyllgor Archwilio y bore hwnnw ochr yn ochr ag adroddiad Archwilio Cymru ar y cyfrifon;<br>- Roedd y cyfrifon drafft wedi'u cyflwyno'n brydlon i Archwilio Cymru ar 5 Mai 2023 ac yna i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Mai 2023;<br>- Roeddent wedi'u paratoi yn unol â'r llawlyfr cyfrifon a safonau adrodd ariannol rhyngwladol;<br>- Ar ôl cyflwyno'r drafft, roedd y bwrdd iechyd wedi gweithio gydag Archwilio Cymru i brosesu mwy na 300 o drywyddau ymholi;<br>- Roedd y sefyllfa diwedd blwyddyn wedi'i diwygio o'r gwarged drafft o £400k ym mis Mai 2023 i danwariant terfynol o £1.838m oherwydd camgymeriad a nodwyd yn yr archwiliad. Roedd hyn yn cyfateb i 0.12% o wariant gros y bwrdd iechyd;<br>- Y sefyllfa terfyn adnoddau cyfalaf oedd tanwariant o £38k;<br>- roedd 94.7% o daliadau sector cyhoeddus wedi'u prosesu o fewn 30 diwrnod yn erbyn y targed o 95%;<br>- Nid oedd y bwrdd iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i adennill costau ar draws tair blynedd gan mai hon oedd yr unig flwyddyn o’r tair i fantoli’r cyfrifon, a fyddai’n golygu barn amodol ar reoleidd-dra cyfrifon;<br>- Roedd 19 o newidiadau wedi'u gwneud i'r cyfrifon yn dilyn adolygiad Archwilio Cymru ac roedd dau gamddatganiad nas cywirwyd a dau fater i'w dwyn i sylw'r bwrdd, a fyddai'n cael eu nodi yn ISA 260 gan Archwilio Cymru; | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Roedd llawer wedi'i ddysgu drwy'r broses ac roedd cynllun gwella chwe mis i'w ddatblygu. Yn ogystal, roedd polisi mantolen i'w ddatblygu ac roedd newidiadau eisoes wedi'u gwneud i'r timau cyllid i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd:<br>- Hon oedd y flwyddyn gyntaf ers 2015-16 i sicrhau cydbwysedd ariannol;<br>- Cofnodwyd diolchiadau am y gefnogaeth a'r tryloywder a ddarparwyd gan Archwilio Cymru.<br><br>Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:<br><br>Cofnododd Emma Woollett ei diolch i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad a'i dîm am eu gwaith i gyflwyno'r cyfrifon blynyddol a'r sefyllfa o adennill costau. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol ac yn garreg filltir i'r sefydliad, yn enwedig o ystyried yr effaith a gafodd Covid ar y sefydliad. Diolchodd hefyd i Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Archwilio am eu cefnogaeth yn ystod y broses. Ategwyd y teimladau hyn gan aelodau eraill y bwrdd.<br><br>Sicrhaodd Nuria Zolle, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, y bwrdd fod y cyfrifon wedi cael eu craffu'n llawn yn y cyfarfod yn gynharach y diwrnod hwnnw. Roedd yr aelodau wedi bod yn fodlon ar yr ymatebion a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad ynghylch y gwaith i fynd i'r afael â'r canfyddiadau. Byddai cynnydd yn cael ei fonitro'n agos gan y Pwyllgor Archwilio. Ychwanegodd ei bod yn bwysig cydnabod yr ymdrechion ar y cyd ar draws y bwrdd iechyd i wneud yr arbedion sydd eu hangen ond y byddai'n bwysig cynnal y rhain yn sgil y blynyddoedd heriol sydd i ddod.<br><br>Nododd Steve Spill y ffigur o 395 o staff asiantaeth a holodd a oedd hyn yn gyfwerth ag amser llawn, gan fod hyn yn cyfateb i £102k o gyflog blynyddol y person o gymharu â £55k ar gyfer staff bwrdd iechyd. Pe bai staff asiantaeth yn lleihau, roedd hyn yn arbediad posibl o £18.5m. Cadarnhaodd Darren Griffiths ei fod yn staff cyfwerth ag amser llawn a bod lleihau gwariant ar asiantaethau yn rhan allweddol o'r cynllun adfer ariannol ar gyfer 2023-24. Roedd y bwrdd iechyd wedi bod yn llwyddiannus yn recriwtio nyrsys rhyngwladol dros y flwyddyn ddiwethaf ac roedd yn disgwyl 130 o nyrsys pellach yn graddio o brifysgolion lleol. Erbyn Medi 2023, rhagwelwyd y byddai'r rhestr ddyletswyddau nyrsio cofrestredig bron yn ddigon llawn, a fyddai o fudd i'r gwasanaethau o safbwynt ansawdd yn ogystal ag ariannol.<br><br>Nododd Steve Spill yr adolygiad gwerth £14.9m i'r ddarpariaeth gofal iechyd parhaus a gofynnodd a oedd potensial i ailadrodd hyn yn y dyfodol. Ymatebodd Darren Griffiths drwy ddweud bod cyfleoedd bob amser i adolygu darpariaethau ond bod y materion a amlygwyd gan Archwilio Cymru yn dangos pa mor drylwyr oedd y cyfrifiadau a byddai'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | ysgogiad clir ar gyfer y darpariaethau mwyaf cywir posibl yn anochel yn arwain at lai o hyblygrwydd. Byddai iteriadau yn y dyfodol yn defnyddio'r fethodoleg ddiwygiedig i gynyddu cywirdeb ymhellach.<br><br>Gofynnodd Steve Spill am eglurder ynghylch y llog wrth gefn PFI (menter ariannol breifat). Ymatebodd Darren Griffiths fod rhan o'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaethau gael eu cynnwys mewn cyfrif penodol (cronfa de-minimus) ac os nad oedd hwn yn cael ei ddyrannu fel rhan o'r contract, byddai'n cael ei ddychwelyd i'r bwrdd iechyd. Roedd y bwrdd iechyd o'r farn bod llog yn ddyledus iddo ar yr arian hwn a'i fod yn gweithio drwy'r broses. | |
| **Penderfyniad:** | - Bod y cyfrifon blynyddol archwiliedig ar gyfer 2022-23 yn cael eu **cadarnhau** er mwyn gallu eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef canol dydd, dydd Llun, 31 Gorffennaf 2023. | |
| **126/23** | **ISA 260 Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd** archwiliad ISA 260 o ddatganiadau ariannol.<br><br>Wrth gyflwyno'r ISA 260, amlygodd Jason Blewitt y pwyntiau a ganlyn:<br>- Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio y bore hwnnw;<br>- Roedd yn nodi barn archwilio wir a theg ddiamod ar y cyfrifon, yr oedd yn credu ei bod yn gywir, ond cynigiwyd amodi'r farn archwilio mewn perthynas â rheoleidd-dra gwariant oherwydd y methiant i adennill costau dros y cyfnod o dair blynedd;<br>- Gweithiodd Archwilio Cymru yn unol â chysyniad o fateroliaeth, y credai ei fod yn £14.7m eleni i'r bwrdd iechyd;<br>- Roedd dau gamddatganiad nas cywirwyd:<br>• Croniad o absenoldeb meddygol y credai Archwilio Cymru ei fod yn oramcangyfrif o £9.5m. £2.5m oherwydd data a ddarparwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gan gynnwys copïau dyblyg a £7m oherwydd croniad ychwanegol y bwrdd iechyd gan ei fod yn credu bod data AaGIC yn anghyflawn. Roedd rheswm y bwrdd iechyd dros beidio â chywiro'r camddatganiad wedi'i nodi yn y llythyr cynrychiolaeth;<br>• Roedd taliad prydlesi fel safon cyfrifo newydd wedi'i gymhwyso ar gyfer eleni ac o'r 23 les a brofwyd, canfuwyd gwallau mewn pump, a oedd yn golygu y gallai gwallau fod yn bresennol o'r £5m nas profwyd; | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Roedd camddatganiadau wedi'u cywiro wedi'u nodi yn atodiad tri ac yn cynnwys y cywiriad a newidiodd y sefyllfa dros ben i £1.8m;<br>- Roedd y materion eraill i adrodd arnynt i'r bwrdd yn cynnwys taliad terfynu a awdurdodwyd y tu allan i'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth a materion yn ymwneud ag archwilio offer peiriannau eiddo. Roedd argymhellion ar y ddau o'r rhain wedi'u derbyn gan y bwrdd iechyd;<br>- Cofnodwyd diolchiadau i'r bwrdd iechyd am ei gydweithrediad yn ystod y broses archwilio. | |
| **Penderfyniad:** | Dylid **nodi** archwiliad ISA 260 o'r datganiadau ariannol. | |
| **127/23** | **LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH** | |
| **Penderfyniad:** | **Derbyniwyd** a **chymeradwywyd** y llythyr cynrychiolaeth i'w gyflwyno i Archwilio Cymru ochr yn ochr â'r cyfrifon terfynol. | |
| **128/23** | **YMATEB I YMCHWILIADAU ARCHWILIO** | |
| | **Derbyniwyd** a **nodwyd** yr ymateb i ymholiadau archwilio Archwilio Cymru. | |
| **129/23** | **PENNAETH BARN ARCHWILIO MEWNOL AC ADRODDIAD BLYNYDDOL** | |
| | **Derbyniwyd** barn ac adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23.<br>Wrth gyflwyno’r adroddiad, tynnodd Hazel Lloyd sylw at y pwyntiau canlynol:<br>- Cwblhawyd 29 o archwiliadau yn ystod y flwyddyn – tri adroddiad sicrwydd sylweddol, 17 rhesymol a saith adroddiad sicrwydd cyfyngedig, gyda dau nodyn cynghori;<br>- Roedd yr holl adroddiadau wedi'u derbyn gan y Pwyllgor Archwilio;<br>- Roedd sgôr archwilio gyffredinol ar gyfer y flwyddyn yn sicrwydd rhesymol.<br>Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cofnododd Emma Woollett ei diolch am y gefnogaeth archwilio mewnol trwy gydol y flwyddyn.<br><br>Dywedodd Emma Woollett ei fod yn adroddiad defnyddiol i'w weld gan nad oedd yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd a'i fod yn rhoi asesiad cyffredinol o bob adolygiad. Roedd yn braf gweld y sgôr sicrwydd rhesymol cyffredinol ac ar gyfer rhai o'r adroddiadau sicrwydd cyfyngedig, megis gofal iechyd parhaus a phontio gwasanaethau meddwl plant a'r glasoed i oedolion, roedd yn hysbys bod gwaith yn mynd rhagddo. Holodd beth oedd yn cael ei wneud mewn meysydd eraill, megis iechyd a diogelwch, llywodraethu gwybodaeth ac ystadau, i sicrhau cynnydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Rhoddodd Nuria Zolle sicrwydd bod y Pwyllgor Archwilio yn parhau i ganolbwyntio ar adroddiadau sicrwydd cyfyngedig i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd, ond hefyd cyfeiriodd yr adroddiadau at y pwyllgorau perthnasol i fonitro cynnydd. Dywedodd Darren Griffiths fod ganddo bellach arolygiaeth dros ystadau ac iechyd a diogelwch a bod 60% o'r camau gweithredu heb eu cyflawni eisoes wedi cael sylw. Roedd wedi sefydlu proses drylwyr i oruchwylio adroddiadau o'r fath wrth symud ymlaen a hefyd wedi gwneud newidiadau i'r prosesau adrodd ar gyfer cyfalaf, ystadau ac iechyd a diogelwch i ddarparu gwell llywodraethu. Dywedodd Matt John fod y materion yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth yn ymwneud ag adnoddau ar gyfer ceisiadau gwrthrych am wybodaeth ac roedd swydd bellach allan i recriwtio. Roedd polisi cais gwrthrych am wybodaeth hefyd allan i'w gymeradwyo. Roedd y model llywodraethu ynghylch llywodraethu gwybodaeth a seiber wedi'i ddiweddaru i roi mwy o gyfrifoldeb ar wneud penderfyniadau a oedd bellach yn cynnwys Gwarcheidwad Caldicott, Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.<br><br>Tynnodd Nuria Zolle sylw at y sicrwydd sylweddol ynghylch y gwaith trawsnewid digidol gan ei bod yn bwysig adlewyrchu'r adroddiadau â sgôr uwch. Ychwanegodd ei bod yn galonogol clywed yn y Pwyllgor Archwilio bod aelodau annibynnol eraill ar bwyllgorau eraill wedi gallu gweld rhywfaint o'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas ag archwiliadau. | |
| **Penderfyniad:** | - Dylid **nodi** barn y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r adroddiad blynyddol. | |
| **130/23** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23** | |
| | **Derbyniwyd** yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Hazel Lloyd sylw at y pwyntiau canlynol:<br>- Roedd y drafft wedi'i rannu ag aelodau'r bwrdd, y Bwrdd Rheoli, yr archwilwyr a Llywodraeth Cymru ac roedd adborth wedi'i ymgorffori;<br>- Bu'n ddogfen dair rhan yn ymgorffori perfformiad, atebolrwydd a datganiadau ariannol;<br>- Roedd y bwrdd wedi cytuno ar newid dros dro i'r rheolau sefydlog yn dilyn awdurdod gan Lywodraeth Cymru i gynnal cyfarfodydd cyffredinol blynyddol erbyn diwedd Medi 2023 yn hytrach na mis Gorffennaf 2023 i fodloni gofynion Archwilio Cymru. Byddai cyfarfod y bwrdd iechyd yn cael ei gynnal ar 14 Awst 2023.<br>Wrth drafod yr adroddiad, cofnododd Emma Woollett ei diolch i'r tîm llywodraethu corfforaethol am y gwaith o baratoi'r adroddiad. | |
| **Penderfyniad:** | - **Cymeradwyo** adroddiad blynyddol 2022-23 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 31 Gorffennaf 2023. | |
| **131/23** | **UNRHYW FUSNES ARALL** | |
| | Nid oedd unrhyw fusnes pellach a daethpwyd y cyfarfod i ben. | |
| **132/23** | **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF** | |
| | Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf oedd **dydd Iau 27 Gorffennaf 2023.** | |

Daeth y cyfarfod i ben: 3.45pm